# ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

## TGAU (NEWYDD)
## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## HAF 2022

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

| **Uned** | **Tudalen** |
|---|---|
| Uned 1 | 1 |
| Uned 2 | 5 |
| Uned 3 | 7 |
| Uned 4 | 10 |

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TGAU (NEWYDD)

## Haf 2022

## UNED 1: TWF, DATBLYGIAD A LLESIANT DYNOL

### Sylwadau Cyffredinol

Cofrestrwyd 8,291 o ymgeiswyr ar gyfer arholiad Uned 1, ac roeddent wedi'u paratoi'n dda ar ei gyfer. Dangoswyd dealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn gan ymgeiswyr, ond nid oedd digon o fanylion i'w cael ar gyfer rhai ymatebion, yn enwedig ar gyfer y cwestiynau marciau uwch: 5, 7 (ch) a 3 (b). Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall llawysgrifen wael fod yn anodd ei deall, gan arwain at golli marciau.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1** Yn gyffredinol, y cwestiwn hwn oedd un o rannau mwyaf hygyrch y papur. Roedd y cwestiwn yn seiliedig ar alw i gof, a oedd yn rhoi dechrau da i'r papur i ymgeiswyr, a dyna oedd y bwriad.

(a) Atebwyd y cwestiwn yn dda, gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi'r ddau faes twf a'r ddau faes datblygiad yn gywir.

(b) (i) Roedd ymgeiswyr yn gallu nodi ystyr y term 'sgiliau echddygol bras'. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ddefnyddio'r term 'grwpiau cyhyrau', gan ddefnyddio 'rhannau mawr o'r corff' yn lle hynny, sydd ddim yn ddigon cywir. Dylid dysgu termau'n fanwl gywir.

(ii) Roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi un enghraifft o sgìl echddygol bras.

**Cw.2** (a) (i) Roedd yn syndod faint o ymgeiswyr nad oeddent yn gallu ennill marciau llawn am ddisgrifio'r rhesymau pam mae siartiau canraddol yn cael eu defnyddio i fesur twf. Dylai atebion fod wedi disgrifio'n benodol y defnydd o siartiau canraddol yn hytrach na monitro twf gan y gallai fod gorgyffwrdd â rhan (b), yn ogystal â pheidio ag ateb y cwestiynau'n gywir.

(ii) Roedd ymgeiswyr yn gallu nodi un gweithiwr iechyd proffesiynol fyddai'n defnyddio siart canraddol. Fodd bynnag, ar gyfer carfanau yn y dyfodol, bydd disgwyl terminoleg briodol, er enghraifft, 'meddyg teulu' yn hytrach na 'meddyg'.

(b) Roedd rhai ymgeiswyr yn ailadrodd rhannau o'r cwestiwn yn eu hateb neu'n ailadrodd rhan (i). Dylai fod atebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys terminoleg ac ymatebion fel: mae'n cyfeirio at adegau ym mywyd unigolyn lle mae disgwyl i newidiadau penodol ddigwydd; cerrig milltir; dros amser; tyfu ar gyfradd benodol.

(c) Roedd nifer mawr o atebion wedi'u strwythuro'n dda i'r cwestiwn hwn am sut byddai deiet yn gallu effeithio ar ddatblygiad corfforol plentyn. Enillodd llawer o ymgeiswyr fand marciau 3. Roedd llawer ohonynt yn rhoi enghreifftiau ac yn trafod ffactorau addas fel cymeriant gormodol o fraster yn achosi gordewdra,

© WJEC CBAC Ltd.

gormod o siwgr a'r risgiau o ddiabetes, diffyg maetholion a gormod o galorïau. Roedd nifer bach o ymgeiswyr wedi camddeall y term 'deiet' fel deiet cyfyngol.

**Cw.3** (a) (i) Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r patrymau datblygiad corfforol disgwyliedig ar gyfer plentyn 2 oed. Roedd rhai yn sôn am batrymau disgwyliedig ar gyfer unigolyn ifancach yn hytrach nag unigolyn 2 oed, fel eistedd i fyny heb gynhaliaeth.

(ii) Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r patrymau datblygiad deallusol disgwyliedig ar gyfer plentyn 2 oed.

(iii) Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r patrymau datblygiad emosiynol disgwyliedig ar gyfer plentyn 2 oed. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn drysu rhwng y patrymau disgwyliedig ar gyfer meysydd datblygiad emosiynol a chymdeithasol yn eu henghreifftiau.

(iv) Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r patrymau datblygiad cymdeithasol disgwyliedig ar gyfer plentyn 2 oed. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn drysu rhwng y patrymau disgwyliedig ar gyfer meysydd datblygiad emosiynol a chymdeithasol yn eu henghreifftiau.

(b) Cafwyd anhawster yn y cwestiwn hwn pan nad oedd ymgeiswyr yn gallu enwi rhaglen sgrinio gywir sy'n cael ei chynnig i fabanod a phlant ifanc yng Nghymru. Dylid bod wedi dewis rhaglenni sgrinio o'r PCHP, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru a Cymru Well Wales: y 1000 diwrnod cyntaf.

**Cw.4** (a) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi dewis y term cywir ar gyfer cam bywyd Alun. Ni ddyfarnwyd marciau am ‘oedrannus’.

(b) Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth dda iawn am effeithiau posibl ysgariad ar Alun ac roedd llawer ohonynt yn cynnwys effeithiau cadarnhaol yn ogystal ag effeithiau negyddol. Gwelwyd rhywfaint o atebion a oedd wedi'u strwythuro'n dda iawn, gydag ymgeiswyr yn trefnu eu hatebion â'r defnydd o PIES (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol).

(d) Eto, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda yn gyffredinol. Roedd ymgeiswyr yn deall y manteision i iechyd emosiynol a chymdeithasol Alun os yw'n mynd i ddosbarthiadau ymarfer corff gyda'i ffrindiau.

**Cw.5** Hwn oedd y cwestiwn â'r marciau uchaf. Roedd yn heriol i rai ymgeiswyr ond roedd yn gyfle i ymgeiswyr eraill ennill marciau uchel drwy ddarparu trafodaethau ac enghreifftiau o allu cael mwy o ddewis, mwy o reolaeth, mwy o annibyniaeth a llais. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn deall ystyr 'cyfranogiad gweithredol' ac roeddent wedi drysu rhwng y term hwnnw a 'bod yn weithgar'. Felly, roeddent wedi ateb y cwestiwn gan roi manteision bod yn weithgar yn hytrach na manteision 'cyfranogiad gweithredol'.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.6** (a) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi ticio'r atebion cywir 'dechrau gweithio' a 'priodi' ar gyfer y cwestiwn hwn.

(b) Eto, roedd yn amlwg o'r atebion bod ymgeiswyr yn gyfarwydd ag effaith marwolaeth rhywun agos ar unigolyn. Fodd bynnag, roedd rhai atebion yn gwneud cyfeiriadau amwys yn unig at fod yn unig.

(c) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ac fe wnaeth ymgeiswyr nodi dau ymarferwr yn gywir a fyddai'n gallu cefnogi unigolyn sydd wedi cael profedigaeth. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn sôn am y driniaeth yn hytrach na'r ymarferwr, er enghraifft, therapi yn hytrach na therapydd. Gwnaeth un ymgeisydd grybwyll 'teulu' hefyd, sy'n anghywir. Dylid defnyddio'r derminoleg gywir ar gyfer ymarferwyr fel 'therapydd trwyddedig'.

**Cw.7** (a) Ni allai llawer o ymgeiswyr nodi ystyr y term 'gwydnwch' yn gywir. Argymhellir eich bod yn addysgu'r ymgeiswyr i alw i gof yr union ddiffiniad fel y mae yn y fanyleb. Gwydnwch yw gallu unrhyw unigolyn os yw'n wynebu anfantais neu amodau/profiadau/trawmâu niweidiol eraill. Dyfarnwyd marciau am enghreifftiau hefyd fel problem deuluol a phroblemau iechyd.

(ii) Roedd y cwestiwn hwn yn peri anhawster os nad oedd yr ymgeiswyr yn deall y term ‘gwydnwch’. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd rhai ymgeiswyr wedi ennill y marc yn (i) gan nad oeddent wedi nodi ystyr 'gwydnwch' yn gywir, ond roedd ganddynt ryw fath o syniad o'i ystyr. Dylai fod ymgeiswyr wedi cyfeirio at Adam i ennill band marciau 2 neu 3 am yr ateb hwn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar esboniadau cyffredinol yn hytrach na chyfeirio'n benodol at Adam yn ôl gofynion y cwestiwn.

(b) Yn y cwestiwn hwn a oedd yn gofyn sut gallai cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd fod o fantais i iechyd meddwl Adam, roedd llawer o ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth gadarn am fanteision allweddol. Roedden nhw'n gallu nodi'r prif fanteision fel rhyddhau endorffinau a chemegion eraill i wella hwyliau, teimlo'n dda, cael effaith dawelu, lleihau straen a chynyddu hunan-barch.

(c) Yn yr un modd â'r term 'gwydnwch', argymhellir bod ymgeiswyr yn defnyddio'r diffiniad yn y fanyleb yn gywir gan y gellir defnyddio'r elfen AA1 (galw i gof). Yn aml, nid oedd disgrifiadau ymgeiswyr o'r term 'meddylfryd twf' yn ddigon cywir i ennill unrhyw farc. Meddylfryd twf yw'r 'gred y gall unigolyn ddysgu a gwella o ganlyniad i ddiwylliant cyson o ddisgwyliadau uchel ac adborth o safon’.

(e) Cafwyd anawsterau pan nad oedd ymgeiswyr yn deall y term 'meddylfryd twf' yn gywir i'w galluogi i drafod y ffyrdd byddai ysgol Adam yn gallu ei helpu i ddatblygu meddylfryd twf a dod yn fwy gwydn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.8** (a) (i), (ii) Byddai llawer o ymgeiswyr wedi gallu ennill marciau uwch yn rhan (ii) y cwestiwn hwn pe byddent wedi nodi un o ganllawiau addas y llywodraeth. Byddai meysydd cyffredinol wedi cael eu derbyn yn (i). Byddai adolygu canllawiau gwahanol y llywodraeth yn 2.1.4 (a) yn fwy trylwyr wedi caniatáu i ymgeiswyr ennill marciau uwch.

(b) Nid oedd y cwestiwn hwn yn peri unrhyw broblemau i fwyafrif yr ymgeiswyr gan eu bod yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o effeithiau posibl esgeulustod, ac roedd llawer yn defnyddio terminoleg berthnasol iawn fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trawma a phroblemau o ran ymddiriedaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU (NEWYDD)**

**Haf 2022**

**UNED 2: HYBU A CHYNNAL IECHYD A LLESIANT**

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'n braf adrodd bod nifer mawr o ymgeiswyr wedi'u cofrestru ar gyfer y cymhwyster newydd hwn. Roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn dangos bod canolfannau'n cofrestru ymgeiswyr ar draws yr amrediad llawn o raddau. Roedd rhai canolfannau wedi cwblhau gwaith rhagorol ar gyfer yr uned hon, a dylid eu canmol am eu perfformiad. Fodd bynnag, roedd rhai canolfannau wedi rhoi marciau yn y lefelau cyflawniad uchaf am waith heb ddigon o dystiolaeth o ymchwilio na dadansoddi. Bydd hyn wedi'i amlygu yn adroddiadau canolfannau unigol a dylai canolfannau weithredu ar y canllawiau hyn. Dylai'r canolfannau hyn ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar wefan CBAC.

**Gweinyddu**

Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cynnwys ffurflen datganiad yr ymgeisydd/athro yn gywir, sy'n un o elfennau gorfodol gofynion yr asesiad dan reolaeth. Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cadw at y terfyn amser o ddeg awr a ganiateir ar gyfer Tasg 1. Mae angen cynnwys enw'r ymgeisydd a rhif y ganolfan ar y gwaith. Llwyddodd canolfannau i gynhyrchu gwaith cryno a oedd wedi'i gyflwyno'n dda. Mae anodi gwaith yn unol â'r meini prawf asesu yn cynorthwyo'r broses gymedroli yn fawr ac roedd yn braf gweld hyn yn cael ei wneud gan y rhan fwyaf o ganolfannau – mae hyn yn arfer da ac mae angen i bob canolfan ei wneud.

**Asesu**

Yn gyffredinol, mae marcio canolfannau wedi bod yn gyson. Er hynny, roedd rhai'n tueddu i fod yn rhy hael. Dylai'r canolfannau hyn ddefnyddio'r deunydd enghreifftiol sydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC i'w cynorthwyo â chynnwys a gofynion asesu'r uned hon.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1: Darparu gwasanaethau**
Dyma'r unig dasg a aseswyd yng nghyfres haf 2022 o ganlyniad i addasiadau.

**(a) Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion**

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi nodi'r unigolyn/grŵp a ddewiswyd ganddynt i ymchwilio iddo. Roedd nifer bach o ganolfannau wedi darparu gwybodaeth ddiangen ar draws mwy nag un grŵp. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi dewis grwpiau targed ag anghenion penodol, ac mae hyn yn opsiwn i bob canolfan. Nid yw'n golygu ennill marciau uwch ond mae yn rhoi cyfle i ymgeiswyr gyflawni ymchwil mwy personol a dangos diddordebau personol. Fodd bynnag, dylai'r gwaith ymwneud yn bennaf â'r grŵp targed, nid yr angen penodol. Roedd gwaith rhai ymgeiswyr yn tueddu i ymwneud ag angen penodol fel problemau iechyd meddwl, yn hytrach na'r grŵp targed sy'n byw â phroblem iechyd meddwl. Dylai athrawon arwain eu hymgeiswyr yn briodol ar ddechrau'r gwaith. I ennill band marciau 4, mae angen ymchwiliad manwl a pherthnasol i amrediad eang o wasanaethau lleol a/neu genedlaethol priodol. Cafwyd

© WJEC CBAC Ltd.

anawsterau pan nad oedd rhai ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth fanwl o sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio. Byddai hyn yn cynnwys disgrifiadau fel gwasanaethau cofrestru, gwasanaethau arolygu a gweithredu lle a phan fo angen gwneud hynny. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn defnyddio dull addas o ddangos eu gwybodaeth. Mae tablau yn dderbyniol, ond mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y tablau hyn yn ddigon manwl i ddangos yr amrediad o farciau. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi nodi'r sectorau a'r darparwyr yn gywir. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyfeirio at eu defnydd o amrediad priodol o ffynonellau drwy eu gwaith. Roedd rhai canolfannau wedi rhoi marciau hael ar gyfer yr adran hon lle nad oedd ffynonellau i'w gweld.

**(b) Ymchwilio i rolau swyddi dau weithiwr proffesiynol allweddol**

Yn gyffredinol, llwyddodd ymgeiswyr i nodi dau weithiwr proffesiynol a oedd yn gysylltiedig ag un o'r gwasanaethau o adran (a). Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi dewis dau weithiwr proffesiynol o wasanaethau gwahanol. Dylid cywiro hyn ar gyfer carfan y flwyddyn nesaf er mwyn mynd i'r afael â'r dasg. Roedd hyn hefyd yn gwneud y dasg o esbonio sut mae'r gweithwyr proffesiynol a ddewiswyd yn gweithio yn rhan o amlasiantaeth yn anoddach. I ennill y marciau uwch, dylai pob ymgeisydd ddisgrifio'n fanwl y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y ddwy rôl swydd. Rhaid i hyn fod mewn perthynas â'r grŵp targed a'i anghenion, ac roedd rhai ymgeiswyr wedi methu ennill y marciau uwch ar gyfer yr adran hon. Argymhellir defnyddio PIES yma. Rhaid i ymgeiswyr osgoi rhestru sgiliau a rhinweddau gan fod hynny'n cyfyngu eu marciau. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng sgiliau a rhinweddau. Fodd bynnag, roedd rhai'n dangos gwybodaeth ardderchog am y ddwy rôl swydd wahanol. Rhaid i ymgeiswyr nodi cyfleoedd gyrfa o fewn y rolau hyn. Dylai hyn gynnwys y cyfleoedd sydd ar gael o fewn y rolau swyddi, yn hytrach na'r cymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer y rolau swyddi. Rhaid i ymgeiswyr esbonio sut gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at weithio amlasiantaethol. Dim ond i ymgeiswyr sy'n rhoi esboniad trylwyr a pherthnasol o'r ffordd y gall y ddau weithiwr proffesiynol allweddol gyfrannu at weithio amlasiantaethol y dylid dyfarnu bandiau marciau uwch.

**(c) Dadansoddi'r dasg**

Caiff ansawdd cyfathrebu ymgeiswyr ei asesu yn adran (c). Mae angen i ymgeiswyr ddadansoddi canfyddiadau eu hymchwiliad mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r gweithwyr proffesiynol allweddol sydd ar gael a dadansoddi p'un a ydynt yn bodloni anghenion y grŵp targed ai peidio. Roedd ymgeiswyr o sawl canolfan wedi rhoi cynnig da ar yr adran hon, gan ymdrin â gofynion y bandiau marciau uwch; ond mae angen dadansoddiad rhagorol a manwl o ganfyddiadau'r ymchwiliad i ennill band marciau 4. Roedd rhai canolfannau wedi dyfarnu band marciau 3 a band marciau 4 am ddadansoddiad sylfaenol. Yn y dadansoddiad, dylai ymgeiswyr gynnwys eu safbwyntiau eu hunain a llunio barn am y gwasanaethau a'r gweithwyr proffesiynol allweddol yr ymchwiliwyd iddynt. Dylai'r dasg hon ddilyn o adrannau (a) a (b) a dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r derminoleg gywir fel y nodwyd yn y fanyleb. Dim ond band marciau 1/2 y gellir ei ddyfarnu i ymgeiswyr sy'n darparu dadansoddiad cyfyngedig neu sylfaenol o'u canfyddiadau.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddeall gofynion y dasg, ac roedd nifer bach wedi dadansoddi eu gwaith yn hytrach na'r gwasanaethau a'r gweithwyr proffesiynol allweddol ac anghenion y grŵp targed.

I ddyfarnu band marciau 4 ar gyfer yr adran hon, rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn defnyddio terminoleg arbenigol yn dda iawn heb fawr ddim

© WJEC CBAC Ltd.

camgymeriadau o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. Dylai'r gwaith fod wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i gyflwyno mewn modd priodol iawn.

Anogir canolfannau y mae eu marciau wedi cael eu haddasu i ddefnyddio'r deunydd enghreifftiol sydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC, yn ogystal â'r enghreifftiad asesu wedi'i ddiweddaru i gynorthwyo â'r gwaith o farcio'r uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU (NEWYDD)**

**Haf 2022**

**UNED 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT YN YR 21AIN GANRIF**

**Sylwadau Cyffredinol**

Roedd llawer o ymgeiswyr yn dangos proses feddwl glir, gan weithio trwy'r cwestiynau ar y papur. Yn aml, cafwyd atebion anghywir o ganlyniad i ddarllen y cwestiwn yn anghywir neu ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwestiwn.

Yn gyffredinol, dangoswyd dealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn gan lawer o ymgeiswyr; fodd bynnag, nid oedd digon o fanylion i'w cael ar gyfer rhai ymatebion, yn enwedig ar gyfer y cwestiynau marciau uwch fel 6 (ch), 7 (b) ac 8.

Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall llawysgrifen wael fod yn anodd ei deall, gan arwain at golli marciau.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Roedd y cwestiwn hwn yn seiliedig ar alw i gof, a oedd yn rhoi dechrau da i'r papur i ymgeiswyr, a chafodd ei ateb yn dda.

**Cw.2** (a) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu nodi beth mae'r llythrennau WHO yn sefyll amdano. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi 'Wales Health Organisation' yn anghywir, yn hytrach na 'World Health Organisation'.

(b) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu amlinellu beth yw diffiniad y WHO o iechyd yn gywir. Fodd bynnag, methodd rhai ymgeiswyr ennill y marciau hyn am amlinellu'r diffiniad cywir – roedd gormod o ymatebion anghywir a oedd yn cynnwys ymdrechion amwys a oedd yn dangos diffyg arweiniad o ran y diffiniad cywir.

**Cw.3** (a) Atebwyd y cwestiwn hwn, a oedd yn gofyn i ymgeiswyr amlinellu un o egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, yn dda. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ennill y ddau farc llawn gan nad oedd eu hamlinelliad yn gywir.

(b) (i) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda, gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi rhaglen gweithgarwch corfforol briodol. Roedd nifer bach wedi rhoi math cyffredinol o weithgarwch corfforol yn unig yn hytrach na rhaglen ac felly ni wnaethant ennill y marc.

(ii) Roedd y rhaglen 5 x 60 yn ymateb poblogaidd, ac roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi Newid am Oes hefyd. Nifer bach iawn oedd wedi nodi rhaglen Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig. Dyfarnwyd marciau hefyd am raglenni eraill nad oeddent wedi'u rhestru yn y fanyleb, fel y rhaglen Couch to 5K. Roedd y cwestiwn yn seiliedig ar alw gwybodaeth i gof am y rhaglen a nodwyd ac roedd ymgeiswyr a oedd wedi nodi rhaglen gweithgarwch corfforol briodol yn gywir yn (i) yn esbonio pwrpas y rhaglen yn dda yn

© WJEC CBAC Ltd.

gyffredinol. Dim ond os oedd ymgeiswyr wedi nodi rhaglen briodol yn (i) y gellid rhoi marciau iddynt.

**Cw.4** (a) Roedd llawer o atebion wedi'u ffurfio'n dda i'r cwestiwn am y ffyrdd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau band 3 drwy ddarparu o leiaf 3 ffordd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis.

(b) Roedd yn syndod faint o ymgeiswyr nad oeddent yn meddu ar y wybodaeth sylfaenol am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 i'w galluogi i ddisgrifio sut mae'r Ddeddf yn ceisio cefnogi plant fel Elis. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn gallu ffurfio ymateb sylfaenol heb y wybodaeth hon, gan ddarparu un awgrym o'r ffyrdd mae'n gallu cefnogi.

(c) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi nodi'n gywir ddau rwystr fyddai'n gallu wynebu unigolion sydd â nam ar y clyw pan fyddan nhw'n mynd i apwyntiad yn yr ysbyty. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi ysgrifennu am y rhwystrau cyfathrebu a'r rhwystrau amgylcheddol, fel sŵn cefndir, sy'n ei gwneud yn anodd clywed y cyngor sy'n cael ei roi.

**Cw.5** (a) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr restru tri arwydd o gam-drin mewn plant ac roedd yn cynnig tri marc hygyrch. Cafwyd llawer o atebion anghywir o ganlyniad i gamddarllen y cwestiwn, lle roedd ymgeiswyr wedi rhestru tri *math* o gam-drin yn hytrach na thri *arwydd* o gam-drin.

(b) Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o sut dylai ysgol ddelio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin. Gwelwyd rhywfaint o atebion wedi'u strwythuro'n dda iawn, gydag ymgeiswyr yn trefnu eu hatebion o amgylch y camau gwahanol yn y broses. Roedd rhai ymgeiswyr yn cynnig esboniad mwy sylfaenol gyda dim ond rhai awgrymiadau ac enghreifftiau o sut byddai ysgol yn delio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin.

(c) (i) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu enwi ac amlinellu enghraifft gywir o ddeddfwriaeth bresennol sydd wedi'i llunio i amddiffyn plant a hybu eu hiechyd a'u llesiant. Dyfarnwyd marciau am nodi enghraifft gywir, hyd yn oed os nad oedd y flwyddyn y ffurfiwyd y ddeddf yn gywir.

**Cw.6** (a) (i) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr nodi gwybodaeth yn gywir o'r graff a chafodd ei ateb yn dda gan y rhan fwyaf.

(b) Roedd y cwestiwn hwn yn seiliedig ar ddisgrifio'r wybodaeth o'r graff yn hytrach na galw i gof neu ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth, ac roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ennill y tri marc llawn am roi disgrifiad cywir. Nid oedd atebion rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at y data, dim ond patrymau gweledol ac felly ni wnaethant ennill y tri marc llawn.

(c) (i) Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio beth yw ystyr Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Roedd llawer o ymgeiswyr yn cynnwys enghreifftiau a mathau o gam-drin i ennill y ddau farc llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

(ii) Yn yr un modd ag (i) uchod, roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio beth yw ystyr ecsbloetio. Roedd llawer o ymgeiswyr yn cynnwys enghreifftiau a mathau o ecsbloetio i ennill y ddau farc llawn.

(ch) Roedd y cwestiwn hwn, am sut byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd, yn cynnig amrywiaeth eang o gynnwys y gellid ei drafod. Roedd rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio ar yr effaith meddyliol ac emosiynol ac roedd ymgeiswyr eraill yn cynnwys amrywiaeth eang o ffactorau. Dylid annog ymgeiswyr mewn cwestiynau ateb estynedig o'r fath i roi mwy o drafodaeth am y pwyntiau y maen nhw'n eu gwneud; er enghraifft, trafod pam gallai creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod achosi hunan-barch a hunan-werth isel.

**Cw.7** (a) (i) Roedd yr esboniadau o sut mae gordewdra yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru yn dangos rhywfaint o allu i gymhwyso gwybodaeth yn dda. Yn aml, dim ond marciau cyfyngedig roedd ymgeiswyr yn eu hennill oherwydd eu bod yn esbonio effaith gordewdra yn gyffredinol heb roi digon o ystyriaeth i sut mae'n effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy. Roedd y cwestiwn yn cyfeirio at yr effaith ar y ddarpariaeth hon yn hytrach nag ar unigolion. Roedd ymgeiswyr yn gallu ennill un marc am ymateb sylfaenol, heb sôn am yr effaith ar y ddarpariaeth hyd yn oed.

(ii) Yn yr un modd ag (i) uchod, roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ateb ar yr un fformat. Roedd mwy o ymgeiswyr yn gallu cysylltu'r mater cyfoes poblogaeth sy'n heneiddio â sut mae'n effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru nag ar gyfer gordewdra yn (i); fodd bynnag, roedd diffyg dealltwriaeth llawer o ymgeiswyr o faterion cyfoes yn effeithio ar fanylder eu hymatebion yma. Roedd ymgeiswyr yn gallu ennill un marc am ymateb sylfaenol, heb sôn am yr effaith ar y ddarpariaeth hyd yn oed.

(b) Yn y cwestiwn hwn a oedd yn gofyn i ymgeiswyr esbonio sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio cefnogi system gynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, roedd llawer o ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda yn eu hesboniadau a oedd yn cynnwys y nodau llesiant. Cafwyd anawsterau yn y cwestiwn hwn pan oedd rhai ymgeiswyr yn dangos diffyg gwybodaeth clir am y Ddeddf. Byddai adolygu'r Ddeddf hon yn 2.3.4 (b) yn fwy trylwyr wedi caniatáu i ymgeiswyr ennill marciau uwch.

**Cw.8** Hwn oedd y cwestiwn â'r marciau uchaf yn y papur. Roedd yn heriol i rai ymgeiswyr ond roedd yn gyfle i ymgeiswyr eraill ennill marciau uchel drwy drafod pa mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cynnwys o leiaf un enghraifft o ddeddfwriaeth neu bolisïau cenedlaethol presennol yn eu hateb. Roedd ymatebion cryfach yn cynnwys tri darn o ddeddfwriaeth/polisi, hynny yw, Cymraeg 2050, Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol. Roedd ymgeiswyr â lefelau uwch o ddealltwriaeth o'r deddfwriaeth a pholisïau a nodwyd uchod yn gallu delio â'r ateb hwn yn well. Yn anffodus, nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu ffurfio cyswllt rhwng unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi yn eu hateb ac nid oedd rhai wedi rhoi cynnig ar ateb o gwbl.

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TGAU (NEWYDD)**

**Haf 2022**

**UNED 4: HYBU A CHEFNOGI IECHYD A LLESIANT ER MWYN SICRHAU CANLYNIADAU CADARNHAOL**

**Sylwadau Cyffredinol**

Roedd ymgeiswyr o rai canolfannau wedi gwneud gwaith rhagorol ar gyfer yr uned hon a dylid eu canmol am eu perfformiad.

**Gweinyddu**

Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cynnwys ffurflen datganiad yr ymgeisydd/athro, sy'n un o elfennau gorfodol gofynion yr asesiad dan reolaeth.

Dylid cynnwys enw'r ymgeisydd a rhif y ganolfan yn glir ar y gwaith.

Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cadw at y terfyn amser o ugain awr a ganiateir ar gyfer yr uned hon.

Llwyddodd canolfannau i gynhyrchu gwaith cryno a oedd wedi'i gyflwyno'n dda.

Mae anodi gwaith yn unol â'r meini prawf asesu yn cynorthwyo'r broses gymedroli yn fawr ac roedd yn braf gweld hyn yn cael ei wneud gan y rhan fwyaf o ganolfannau. Mae hyn yn arfer da a dylai pob canolfan ei wneud.

Wrth arwain eu hymgeiswyr, dylai canolfannau fod yn ymwybodol y gallai rhai dulliau o arddangos eu hymchwiliad fod yn fwy cyfyngol na rhai eraill. Roedd ymgeiswyr o rai canolfannau'n defnyddio strwythuro generig sy'n gallu cyfyngu. Dylid annog ymgeiswyr i fod yn rhydd i ddewis sut i strwythuro a threfnu eu gwaith eu hunain.

**Asesu**

Yn gyffredinol, mae marcio canolfannau wedi bod yn gyson. Er hynny, roedd rhai'n tueddu i fod yn rhy hael. Dylai'r canolfannau hyn ddefnyddio'r deunydd enghreifftiol sydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC i'w cynorthwyo â chynnwys a gofynion asesu'r uned hon.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Adran (a)**

Gofynnwyd i ymgeiswyr ymchwilio i'r ffordd mae mathau gwahanol o ofal yn bodloni anghenion penodol grŵp targed a ddewiswyd. Roedd ymgeiswyr o nifer bach o ganolfannau wedi ymchwilio i lawer o grwpiau targed gwahanol cyn dewis un – nid yw hyn yn angenrheidiol nac yn ffordd effeithiol o weithio.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd ansawdd y gwaith a wnaed ar gyfer yr adran hon yn amrywio. Rhoddwyd disgrifiadau da o anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y grŵp targed a ddewiswyd. Mewn rhai achosion, nid oedd yr ymgeiswyr wedi mynd i'r afael yn llawn â nodi dull cyfannol, ac nid oedd gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal person-ganolog i'w gweld ychwaith. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at ofal person-ganolog drwy'r adran hon i ennill y bandiau marciau uwch. Nid oedd nifer o ymgeiswyr wedi bodloni'r gofynion ar gyfer esbonio sut mae'n bosibl darparu gofal cyfannol. Am y rheswm hwn, roedd yr asesu'n hael yn aml. Roedd rhai ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth glir o anghenion y grŵp targed a ddewiswyd ac felly roeddent yn gallu esbonio sut mae'r mathau gwahanol o ofal yn bodloni'r anghenion a nodwyd. Nid oedd gan ymgeiswyr eraill ddigon o ddealltwriaeth o'r anghenion ac, o ganlyniad, nid oeddent yn gallu ennill y bandiau marciau uwch lle roedd angen iddyn nhw ddangos sut mae'r mathau gwahanol o ofal yn bodloni'r anghenion hyn a nodwyd. Yn gyffredinol, dylid annog ymgeiswyr ar bob lefel i gynnwys mwy o fanylion wrth ddisgrifio anghenion gwahanol y grŵp targed a ddewiswyd ganddynt ac o ran y mathau o ofal sy'n berthnasol i grwpiau targed, gofal person-ganolog a gofal cyfannol.

**Adran (b)**

Addaswyd yr adran hon ar gyfer haf 2022 i asesu'r elfen AA2 yn unig. Roedd canolfannau'n deall ac yn adlewyrchu'r addasiadau'n effeithiol. Cwblhawyd yr adran hon yn dda gan fwyafrif yr ymgeiswyr, gyda rhywfaint o ymchwiliadau ac esboniadau da o amrywiaeth o fentrau lleol a chenedlaethol perthnasol. Roedd ymgeiswyr hefyd yn nodi'n gywir sut mae'r mentrau hyn yn ymwneud ag iechyd a llesiant y grŵp targed a ddewiswyd. Roedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at fentrau nad oeddent yn lleol nac yn genedlaethol ond o wledydd eraill fel UDA. Yn y dyfodol, dylid annog ymgeiswyr i wirio a yw'r lleoliad yn gywir a pha mor addas yw ei fentrau. Roedd rhai ymgeiswyr yn cydnabod eu ffynonellau gwybodaeth; ond, nid oedd rhai yn gwneud hynny.

**Adran (c)**

Yn yr adran hon, dylai ymgeiswyr ymchwilio i weithgareddau ystyrlon i fodloni anghenion penodol y grŵp targed a ddewiswyd ganddynt. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn dangos defnydd effeithiol o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. Mae angen i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r mathau gwahanol hyn o weithgareddau yn ymwneud ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wrth gynllunio'r gweithgareddau – dylai carfanau yn y dyfodol fynd i'r afael â hyn yn fwy effeithiol. Ar gyfer band marciau 4, dylai fod esboniad cywir a manwl o bwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau ystyrlon a nodwyd a ddefnyddiwyd at bwrpasau therapiwtig, creadigol ac adloniadol. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn nodi eu gweithgaredd ystyrlon gyda rhesymau dros eu dewis; fodd bynnag, ar gyfer y band uchaf, dylid cymhwyso gwybodaeth yn rhagorol i esbonio'n fanwl sut y gall cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau a nodwyd fod yn ystyrlon. Ni ddylid rhoi marciau i ymgeiswyr ym mand 3 neu 4 am gymhwyso cyfyngedig neu sylfaenol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran (ch)**

Mae adran (ch) yn gofyn i ymgeiswyr gynllunio a chynhyrchu gweithgaredd ystyrlon sy'n bodloni anghenion y grŵp targed penodol, gan eu helpu i hybu hunan-hunaniaeth, hunan-werth ac ymdeimlad o sicrwydd a gwydnwch. Roedd yr adran hon wedi'i marcio'n hael – dylai'r gwaith gyfateb i'r marciau sydd wedi'u rhoi am yr adran hon. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dewis gweithgaredd ystyrlon addas, gan ddangos nodau, cynllunio a threfnu. Fodd bynnag, nid oedd digon o fanylion yn rhywfaint o'r gwaith i ennill y bandiau marciau uwch wrth ddangos materion iechyd a diogelwch perthnasol. Dylid osgoi taflenni iechyd a diogelwch generig, gan nad yw'r rhain yn dangos gofynion personol a phenodol ar gyfer y gweithgaredd a ddewiswyd, fel y dylai rhestri o ofynion diogelwch. Ar gyfer band marciau 4, mae angen ystyried y gofynion iechyd a diogelwch hyn yn llawn. Rhaid i ymgeiswyr ystyried hefyd sut byddai'n bosibl cydgynhyrchu'r gweithgaredd mewn lleoliad gofal ac nid oedd hyn yn amlwg yng ngwaith rhai ymgeiswyr. Nid oedd digon o fanylion yng ngwaith rhai ymgeiswyr a rhai canolfannau cyfan wrth ystyried amrywiaeth o strategaethau, technegau a dulliau o gael adborth ar gyfer yr adran hon ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar gyfer carfanau yn y dyfodol. Mae gwybodaeth bellach i'w chael ar wefan CBAC, dan adnoddau DPP a gwaith enghreifftiol.

**Adran (d)**

Wrth ddadansoddi a gwerthuso'r dasg ar gyfer yr adran hon, mae angen i ymgeiswyr werthuso'r gweithgaredd a ddewiswyd ganddynt. Roedd ymgeiswyr yn rhoi trafodaethau da am gryfderau a gwendidau eu gwaith cynllunio a threfnu. Roedd y mwyafrif yn llunio barn am ba mor dda oedd y gweithgaredd yn bodloni anghenion eu grŵp targed a sut roedd hyn yn cefnogi canlyniadau personol. Fodd bynnag, mae angen mwy o fanylion i ennill band marciau 4 sy'n gofyn am farn gwbl wybodus. Roedd rhai canolfannau wedi rhoi marciau yn y lefelau cyflawniad uchaf am waith heb ddigon o dystiolaeth o ddadansoddi na gwerthuso. I ddyfarnu band marciau 4 ar gyfer yr adran hon, rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn defnyddio terminoleg arbenigol yn dda iawn heb fawr ddim camgymeriadau o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. Dylai'r gwaith fod wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i gyflwyno mewn modd priodol iawn.

Anogir canolfannau y mae eu marciau wedi cael eu haddasu i ddefnyddio'r deunydd enghreifftiol sydd ar gael ar wefan ddiogel CBAC, yn ogystal â'r enghreifftiad asesu wedi'i ddiweddaru i gynorthwyo â'r gwaith o farcio'r uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.